



RHAGOLWG YNNI

CLYFAR

Mawrth 2020



Cynnwys

Crynodeb gweithredol	4
Mesuryddion clyfar – teimladau'r cyhoedd ac sut maent yn defnyddio'r dechnoleg newydd	6
Beth mae pobl yn dweud am fesuryddion clyfar	7

Methodoleg

Cynhaliodd Populus, asiantaeth ymchwil farchnata annibynnol, 9,569 o gyfweiliadau ar-lein a 4,554 o gyfweiliadau oddi ar-lein gan ddefnyddio arolwg wedi'i deilwra, a ddyluniwyd i fod yn gynrychioliad o boblogaeth 21+ oed Prydain Fawr. Cynhaliwyd y cyfweiliadau rhwng 6 Tachwedd a 2 Rhagfyr 2019.

Nid yw'r cwsmeriaid mesurydd clyfar sy'n ymddangos yn astudiaethau achos y cyhoeddiad hwn o reidrwydd wedi cymryd rhan yn yr ymchwil gan Populus.

Crynodeb gweithredol

Cefndir

Mae agweddau at fesuryddion clyfar ar draws Prydain Fawr wedi gwella ers adroddiad diwethaf y *Rhagolwg ynni clyfar* ym mis Medi 2019. Mae defnyddwyr gyda mesuryddion clyfar a mesuryddion nad ydynt yn glyfar yn fwy cadarnhaol am y dechnoleg a sut y gallant neu y gallent ei defnyddio i ddod â gwastraff ynni i ben yn eu cartrefi, arbed arian a helpu creu system ynni glyfrach.

Mae'r ymchwil ar gyfer y *Rhagolwg ynni clyfar* yn dangos bod ymwybyddiaeth o fesuryddion clyfar yn parhau bron yn hollgyffredinol ar draws y wlad, gyda 95 y cant o'r boblogaeth yn honni eu bod yn gwybod am y dechnoleg a sut mae'n gweithio.

Ar hyn o bryd mae dros 15.6 miliwn¹ o fesuryddion clyfar yn weithredol mewn cartrefi ar draws Prydain Fawr, ac yn ddiweddar mae'r Llywodraeth wedi cynnal ymgynghoriad ar gynigion i alluogi cwblhau'r ymgyrch erbyn diwedd 2024.

Mae gosod mesurydd clyfar yn y cartref yn galluogi cwsmeriaid i fod yn fwy ymwybodol o ddefnyddio ynni ac yn cynnig cyfle i wneud arbedion oddi ar filiau ynni. Gan fod rhai o'r tariffau rhataf ar gael dim ond i bobl sydd â mesuryddion clyfar, mae'r arbedion y gall defnyddwyr eu cyrchu'n cynyddu wrth i fwy o fesuryddion clyfar gael eu gosod ar draws Prydain Fawr.

Er bod bron traean o'r boblogaeth yn honni perchnogaeth ar fesurydd clyfar, mae'n galonogol nodi'r mabwysiad uchaf ymysg pobl sy'n byw mewn tai cymdeithasol. Hefyd, mae 37 y cant o bobl sy'n defnyddio mesuryddion rhagdalu wedi uwchraddio i fesuryddion clyfar.

Mae gan

32%

o'r boblogaeth **osodiad mesurydd clyfar erbyn hyn**

Byddai bron

dau draean²

o bobl sydd â mesurydd clyfar **yn argymhell cael un**



Canfyddiadau diweddaraf

Ar hyn o bryd mae mwy na 4 miliwn³ o fesuryddion clyfar ail genhedlaeth yn weithredol ym Mhrydain Fawr.

O'r rhai nad ydynt wedi cael gosodiad mesurydd clyfar yn eu cartref eto, dywed miliynau eu bod eisiau gofyn am neu dderbyn gosodiad mesurydd clyfar o fewn y chwe mis nesaf.

Mae'r galw am fesuryddion clyfar yn parhau'n gryf ar draws cenhedloedd a rhanbarthau Prydain Fawr.



33% Gogledd-ddwyrain Lloegr	29% Cymru
33% Gogledd-orllewin Lloegr	38% Dwyrain Lloegr
37% Swydd Efrog a'r Humber	36% Llundain
37% Gorllewin Canolbarth Lloegr	36% De-ddwyrain Lloegr
41% Dwyrain Canolbarth Lloegr	31% De-orllewin Lloegr
	36% Yr Alban

Ffigur 1.

Dadansoddiad daearyddol yn dangos cyfran y bobl a hoffai ofyn am neu dderbyn mesurydd clyfar yn ystod y chwe mis nesaf, o'r rhai nad ydynt wedi uwchraddio eto.

Dywed

35%

o bobl sydd heb fesurydd clyfar **eu bod eisiau gofyn am neu dderbyn gosodiad o fewn y chwe mis nesaf**

Teimla

64%

o bobl sydd â mesuryddion clyfar **fod ganddynt fwy o reolaeth dros yr ynni y maent yn defnyddio gartref**

Mae

69%

o bobl sydd â mesuryddion clyfar **yn fwy ymwybodol o ddefnyddio ynni**

Cred

75%

o bobl sydd â mesuryddion clyfar **fod eu biliau ynni'n gywir**



Mesuryddion clyfar – teimladau'r cyhoedd ac sut maent yn defnyddio'r dechnoleg newydd

Gyda mwy na 15.6 miliwn⁴ o fesuryddion clyfar yn weithredol ar draws Prydain Fawr, mae defnyddwyr yn adrodd bod y dechnoleg yn helpu nhw i gael hyder yn eu biliau, gwastraffu llai o ynni gartref ac arbed arian.



	Heb fesurydd clyfar	Gyda mesurydd clyfar
Credaf fod fy mil ynni'n gywir	68%	75%
Rwy'n deall fy miliau ynni	67%	71%
Credaf fod gennyf yr wybodaeth y mae ei hangen arnaf i ddewis y cyflenwr ynni iawn	67%	70%
Credaf fod gennyf yr wybodaeth y mae ei hangen arnaf i ddewis y tariff ynni iawn	65%	69%
Credaf fy mod yn talu'r swm iawn am yr ynni a ddefnyddiaf	55%	59%
Rwy'n ymddiried yn fy nghyflenw(y)r ynni	47%	54%
Nid wyf yn pryderu am gael bil ynni mawr (heb sylweddoli)	33%	34%

Ffigur 3.
Agweddau tuag at ynni: pobl gyda mesurydd clyfar a'r rhai heb un.

⁴ 15.6 miliwn o fesuryddion clyfar gweithredol - Ystadegau swyddogol yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol - Datganiad a data ystadegol: Mesuryddion Clyfar, Prydain Fawr chwarter 3 2019

Beth mae pobl yn dweud am fesuryddion clyfar



“ Mae gan fy ngŵr a finnau gartref sy'n effeithlon iawn o ran ynni ac ymwybyddiaeth o'r amgylchedd. Mae gennym baneli solar a char trydan, felly roedd cael mesurydd clyfar yn gam naturiol ymlaen at fod hyd yn oed yn fwy ymwybodol o'n defnydd a'n heffaith ar yr amgylchedd.”

Marilyn



“ Wrth weld ein costau ynni mewn amser real ar y sgrîn ynni cartref, sylweddol ni fod gadael pethau fel y golau ymlaen i'n hanifeiliaid anwes yn wastraff arian. Rydym yn llawer mwy ymwybodol o sut rydym yn defnyddio ynni ac yn ceisio cwtdogi ar wastraff gymaint â phosib.”

Heather a Frank



“ Mae fy mesurydd clyfar wedi gwella fy mhrofiad o gael biliau ym mhob ffordd: Gallaf roi credyd ar fy mesurydd o gartref, tracio fy nefnydd, ac mae wedi fy helpu i dorri i lawr ar faint rwy'n ei ddefnyddio trwy gydol y dydd. Dylai pawb gael un, yn enwedig os ydych ar ragdalu.”

Doriver



“ Y brif broblem yr oedd gennyf cyn y mesurydd clyfar oedd methu â deall byth o ble y daeth y swm yr oedd arna i ar fy miliau neu faint yn union yr oeddwn i'n defnyddio. Doeddwn i ddim yn gallu gweithio KW/h allan felly pan ddarllenais fy mesurydd roedd yn golygu dim byd i mi. Nawr bod mesurydd clyfar gennyf, gallaf weld yn union faint yr wyf wedi'i ddefnyddio bob dydd ac mae gennyf lawer mwy o reolaeth ar fy nefnydd o ynni.”

Helen

